

# Tair ton enfawr

*“...oherwydd y mae Tywysog y byd hwn yn dod. Nid oes ganddo ddim gafael arnaf fi...” (adn. 30)*

## Beth am ddarlenn Ioan 14:15–31 ac yna myfyrio

Rydym am dreulio un diwrnod arall yn adlewyrchu ar y ffaith fod yr Eglwys yn Antiochia wedi ei sylfaenu gan wŷr a gwragedd oedd wedi dioddef ar gyfrif eu ffydd gan droi y gwrthwynebiad yn gyfle. Yr ydym ni hefyd yn byw mewn dyddiau pan fo popeth a ellir ei siglo yn siglo, ond ni ddylai hynny beri ein bod yn digalonni – gall hon fod yn awr fawr i bobl yr Arglwydd. Yr ydym yn sefyll gyda theyrnas ddi-sigl o dan ein traed a pherson anghyfnewidiol o’n blaen. Dyma y neges y byddwn yn ei ddefnyddio i wrthwynebu agwedd meddwl ein dydd. Nid ein gofid pennaf yw sut i ddioddef y gwrthwynebiad ond sut medrwn ddefnyddio y gwrthwynebiad.

Mae’r adnod sydd yn destun i’r sylwadau heddiw wedi fy rhyfeddu ers i mi ei darganfod gyntaf. Er fy mod wedi cyfeirio at hyn o’r blaen, caniatewch i mi wneud y pwynt eto. Mae’r cyfieithydd James Moffatt yn cyfieithu’r adnod fel hyn: “Nid oes ganddo ef (y Diafol) unrhyw afael arnaf fi; bydd ei ddyfod ond yn gwasanaethu...” Sylwch fel y bu i Iesu wneud hyd yn oed i’r Diafol wasanaethu. Pan na all y Diafol ddylanwadu arnom trwy ein hunan dosturi, ein bywyd hunan ganolog, neu ein chwerwder, yna bydd ei ymweliad â’n calon ni yn ddim mwy na chyfrwng i’n cynorthwyo i wasanaethu yr Iesu yn well. Mae ymdrechion y Diafol yn hyn yn cyfrannu at ddefnyddioldeb y saint.

Mae’r siŵr fod y Diafol wrth ei fodd yn gweld y saint yn cael eu gwasgaru mor bell a Phenice, Cyprus ac Antiochia, ond beth oedd ei ymateb tybed wrth weld canlyniadau eu gwaith yn Antiochia? Mae’n anodd gennyf gredu na all y Diafol weld ei bod yn amhosibl i drechu y rhai y mae Duw yn preswyllo yn eu calonnau. Sefydlwyd yr eglwys yma gan storm o wrthwynebiad ond ar gyfrif y gwrthwynebiad, fe esgorwyd ar storm fwy. Aeth tair ton enfawr allan o Antiochia wrth i Paul, yr apostol, gychwyn oddi yno ar ei daith genhadol. Dyma’r grymoedd a ysgydodd y byd.

## Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

2 Cor. 11:16–13:1; 2 Tim. 1:1–2:19

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam bu i Paul lawenhau mewn gwrthwynebiad?
2. Beth yw yr hyn na ellir ei ysgwyd?

## Gweddi

O Dduw ein Tad, cynorthwya ni i fod yn eglwys fel eglwys Antiochia – yn ganolbwynt i rym yr Efengyl – fel y byddwn ninnau hefyd yn ysgwyd y byd â thonnau enfawr. Rydym yn gofyn hyn yn enw bendigedig Iesu Grist. Amen.